Trosolwg

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi a chynnal ardaloedd triniaeth yn y salon. Mae'n cynnwys paratoi'r ardaloedd triniaeth ar gyfer gwahanol driniaethau a gwasanaethau. Bydd angen i chi allu gosod cynnyrch, offer a chyfarpar ar gyfer y triniaethau hyn, cynnal eich ymddangosiad a hylendid personol a chasglu cofnodion y cleient. Bydd angen i chi hefyd gael gwared ar wastraff ar ôl y triniaethau, storio cofnodion y cleient, glanhau'r ardal waith a'i gadael mewn cyflwr addas.

Er mwyn cyflawni'r safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal ymddangosiad personol proffesiynol a dangos sgiliau cyfathrebu da.

Prif ganlyniadau'r safon hon yw:

1. paratoi ardaloedd triniaeth yn y salon

2. cynnal ardaloedd triniaeth yn y salon

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Paratoi ardaloedd triniaeth yn y salon**

1. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch trwy gydol y paratoi a'r cynnal

2. dilyn cyfarwyddiadau uwch aelod o staff a cheisio cymorth yn ôl yr angen

3. sicrhau bod yr holl offer a chyfarpar yn cael eu glanhau yn dilyn gofynion sefydliadol

4. gosod deunydd, offer a chyfarpar ar gyfer **triniaethau** yn dilyn gweithdrefnau'r safon ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd

5. sicrhau bod **amodau amgylcheddol** yn addas i'r driniaeth

6. sicrhau bod eich hylendid, amddiffyniad ac ymddangosiad personol yn bodloni gofynion diwydiant a sefydliadol derbyniol

7. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu gynhyrchwyr ar ddefnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a chynnyrch

8. casglu cofnodion y cleient ar gyfer yr aelod o staff perthnasol cyn dechrau'r driniaeth

Cynnal ardaloedd triniaeth yn y salon**

9. cael gwared ar ddeunydd gwastraff ar ôl **triniaethau** yn dilyn gofynion y salon

10. cadw lefelau stoc ac eitemau eraill sy'n ofynnol ar gyfer **triniaethau** wedi'u hailstocio i'r lefelau sy'n ofynnol gan y salon

11. storio cynnyrch, offer, cyfarpar a chofnodion cleientiaid ar ôl **triniaethau** yn y man gofynnol

12. gadael yr ardaloedd triniaeth mewn cyflwr glân sy'n addas ar gyfer **triniaethau** pellach

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Paratoi ardaloedd triniaeth yn y salon**

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'ch swydd

2. pam mae hi'n bwysig dilyn cyfarwyddiadau uwch aelod o staff a chanlyniadau peidio â gwneud hynny

3. sut i lanhau, diheintio a sterileiddio gwahanol fathau o offer a chyfarpar

4. y gwahaniaethau rhwng sterileiddio a diheintio

5. pam mae hi'n bwysig cynnal safonau hylendid cyffredinol ac egwyddorion osgoi croes-heintio

6. gwahanol fathau o gynnyrch, offer a chyfarpar sy'n ofynnol ar gyfer triniaethau a sut i'w gosod

7. yr amodau amgylcheddol angenrheidiol ar gyfer triniaethau a pham mae hyn yn bwysig

8. eich cyfrifoldebau a rhesymau dros gynnal eich hylendid, amddiffyniad ac ymddangosiad personol yn unol â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad

9. cyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr a'r cynhyrchwyr ar ddefnydd diogel o gynnyrch, offer a chyfarpar y mae'n rhaid i chi eu dilyn

10. y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gwaith diogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn

11. rhesymau a phwysigrwydd cadw cofnodion o driniaethau

Cynnal ardaloedd triniaeth yn y salon**

12. sut i gael gwared ar ddeunydd a chynnyrch gwastraff o'r triniaethau

13. gofynion eich salon ar gyfer ailstocio cynnyrch ac eitemau eraill ar gyfer triniaethau

14. eich cyfrifoldebau ar gyfer storio cyfarpar, cynnyrch a chofnodion cleientiaid

15. y cyflwr y dylid gadael yr ardal waith a pham mae hyn yn bwysig

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Triniaethau**

1. cwyro
2. triniaethau llygaid
3. colur
4. triniaeth i'r wyneb
5. trin ewinedd dwylo
6. trin ewinedd traed
7. celf ewinedd
8. ychwanegiadau ewinedd

Amodau amgylcheddol**

1. golau
2. gwres
3. awyru
4. cysur cyffredinol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Iechyd a diogelwch**

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
3. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario
6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd
9. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
10. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogeion)

Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd gweithio hyblyg
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba. Mae'r ymddygiad hwn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r sefydliad a'r unigolyn

1. bodloni safonau ymddygiad y sefydliad
2. cyfarch y cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
3. cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
5. addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiad gan y cleient
6. gwirio gyda'r cleient eich bod chi wedi deall eu disgwyliadau yn llawn
7. ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
8. adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydynt wedi deall yn llawn
9. bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant.

Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a dieiriau gwych
3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient
6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

Geirfa

Adweithiau**

Adweithiau negyddol i'r driniaeth neu gynnyrch megis cochni gormodol neu adweithiau alergaidd.

Gwrtharwyddion**

Amodau neu gyfyngiadau sy'n nodi na ddylid cynnal gwasanaeth penodol.

Croes-heintio**

Trosglwyddo micro-organebau trwy arferion hylendid gwael trwy gyswllt uniongyrchol gydag unigolyn arall neu gyswllt anuniongyrchol trwy offer a chyfarpar wedi'u heintio.

Diheintio**

Atal twf micro-organebau (ac eithrio sborau) sy'n achosi salwch gan ddefnyddio cyfryngau cemegol.

Glanhau dwylo**

Glanhau neu olchi'r dwylo i lefel antiseptig er mwyn atal twf bacteria.

Amodau amgylcheddol**

Mae'r rhain yn cynnwys gwresogi, goleuadau ac awyru i sicrhau'r lleoliad a'r naws cywir ar gyfer y gwasanaeth.

Gofynion cyfreithiol**

Mae hyn yn cyfeirio at y cyfreithiau sy'n effeithio ar y ffordd y mae busnesau yn gweithredu, sut mae'r salon neu'r gweithle yn cael ei sefydlu a'i gynnal, pobl sy'n cael eu cyflogi a'r systemau gwaith y mae'n rhaid eu cynnal. Ymhlith yr enghreifftiau y mae rheoliadau COSHH, Rheoliadau Trydan yn y Gweithle a'r Rheoliadau Cynnyrch Cosmetig (Diogelwch).

Cyfarwyddiadau'r cynhyrchwyr**

Arweiniad a gyhoeddir gan gynhyrchwyr neu gyflenwyr cynnyrch neu gyfarpar yn ymwneud â'u defnydd diogel ac effeithiol.

Cyflwyniad personol**

Mae hyn yn cynnwys hylendid personol; defnyddio cyfarpar amddiffyn personol; dillad ac ategolion sy'n addas i'r gweithle penodol.

Gofynion y salon**

Unrhyw weithdrefnau'r salon neu reolau gwaith a gyhoeddir gan reolwyr y salon.

Sterileiddio**

Dulliau glanhau a ddefnyddir er mwyn dinistrio micro-organebau yn llwyr.

SKABT1

Paratoi a chynnal ardaloedd triniaeth yn y salon

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	01 Ion 2015
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2020
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAB2
Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Cynorthwyol
Cyfres/Set	Therapi Harddwch
Geiriau Allweddol	paratoi; cynnal; salon; triniaeth; ardaloedd